**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

**Dyfed-Powys**

# Dyfed-Powys

## Adroddiad perfformiad cryno chwarter 3 2024/25

**Cyflwyniad**

Sefydlodd Deddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu o fewn pob ardal Heddlu yng Nghymru a Lloegr, gan roi cyfrifoldeb iddynt am gyfanrwydd plismona yn eu hardal. Mae’n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflawniad gweithredol plismona, gan gynnwys y Gofyniad Plismona Strategol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref.

Mae adran 70 o Ddeddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i’r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Protocol Plismona, sy’n berthnasol i bob Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae’r protocol hwn yn nodi rolau a chyfrifoldebau pawb sy’n ymwneud â’r berthynas bedair rhan, sef Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl, y Panel Heddlu a Throseddu a’r Ysgrifennydd Cartref.

Bydd pob parti yn cadw at y saith egwyddor a nodir yn y Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, a elwir yn Egwyddorion Nolan.

Mae sefydlu a chynnal perthnasau gwaith effeithiol gan y partïon hyn yn hanfodol. Disgwylir y bydd egwyddorion ewyllys da, proffesiynoldeb, didwylledd ac ymddiriedaeth yn sail i’r berthynas rhyngddynt a bydd pob parti yn gwneud eu gorau glas i wneud i’r berthynas weithio.

Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â Gorchymyn Protocol Plismona 2011, datblygodd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wiriad iechyd sy’n cwmpasu’r holl feysydd yn y protocol y mae gan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu bŵer a dyletswydd gyfreithiol drostynt. Mae hyn yn cyfateb i 21 maes sy’n cael eu rhannu ymhellach yn 54 maes gweithredu gan wahanol feysydd busnes o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh); mae pedwar o’r rhain wedi’u nodi’n barhaol fel amherthnasol, sy’n gadael 50 maes gweithredu. Cwblheir y rhain yn chwarterol i ddangos cynnydd parhaus.

Rhoddir sgôr coch, melyn, gwyrdd i bob adran i amlygu unrhyw feysydd sy’n peri pryder.

Gwyrdd - Cydymffurfio’n llawn, dim angen unrhyw waith ychwanegol

Melyn - Cydymffurfio’n rhannol, angen rhywfaint o waith ychwanegol

Coch - Nid yw’n cydymffurfio, nid yw’r ddyletswydd yn cael ei chyflawni ar hyn o bryd.

Mae crynodeb o’r gwiriad iechyd ar gael i’r Panel Heddlu a Throseddu ar ffurf adroddiad, gan gynnwys crynodeb gweithredol o’r chwarter blaenorol.

**Crynodeb gweithredol**

Mae'r adroddiad canlynol yn cwmpasu cyfnod adrodd chwarter 3 y flwyddyn ariannol 2024/25 (Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2024)

Cymhariaeth statws coch melyn gwyrdd

Yn ystod y chwarter hwn, mae perfformiad nifer o gamau gweithredu wedi newid, mae un cam gweithredu wedi newid o wyrdd i felyn ac mae wyth wedi symud o oren i wyrdd. Esbonnir y diwygiadau isod:

**Mae'r chwarter hwn wedi gweld dirywiad mewn perfformiad gydag un cam gweithredu yn symud o wyrdd i felyn. Eglurir y gwelliant isod**

Archwilio a gwneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu allanol – mae hyn yn newid o wyrdd i felyn oherwydd nodi risgiau penodol rhai partneriaid nad ydynt wedi datgan unrhyw wariant hyd yma mewn perthynas â chyllid Strydoedd Saffach 5.

**Mae'r chwarter hwn wedi gweld gwelliant mewn perfformiad gydag wyth cam gweithredu yn symud o felyn i wyrdd. Esbonnir y diwygiadau isod:**

Datblygu Cynllun yr Heddlu a Throseddu – mae hyn yn newid o felyn i wyrdd gan fod y cynllun wedi'i gwblhau a'i gytuno gyda digwyddiad lansio i'w gynnal ym mis Chwefror.

Adolygu Cynllun yr Heddlu a Throseddu – mae hyn yn newid o felyn i wyrdd gan fod y cynllun wedi'i gwblhau a'i gytuno gyda digwyddiad lansio i'w gynnal ym mis Chwefror.

Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol ar waith i gefnogi'r CHTh i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol – mae hyn yn newid o felyn i wyrdd gan fod y trefniadau wedi eu hadolygu a threfniadau newydd wedi eu gweithredu.

Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol ar waith i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff – mae hyn yn newid o felyn i wyrdd gan fod y trefniadau wedi eu hadolygu a threfniadau newydd wedi eu gweithredu.

Archwilio a gwneud y mwyaf o fentrau nawdd – mae hyn yn newid o felyn i wyrdd gan fod gwaith yn parhau i nodi cyfleoedd perthnasol ar gyfer cyllid.

Archwilio cyfleoedd cydweithio yn unol â Gweledigaeth Plismona Cymru – mae hyn yn newid o felyn i wyrdd gan i drefniadau llywodraethu Cydweithrediadau

Heddlu CHTh ddatblygu i hwyluso ystyried cyfleoedd yn unol â Gweledigaeth Plismona Cymru.

Archwilio cyfleoedd cydweithio â phartneriaid – mae hyn yn newid o felyn i wyrdd yn dilyn cyflwyno'r Fforwm/Grŵp Cyllid a Phrosiectau sy'n cynnal cyfarfodydd misol ers mis Medi 2024.

Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol ar waith i graffu ar gytundebau cydweithio – mae hyn yn newid o felyn i wyrdd oherwydd cyflwyno Bwrdd Goruchwylio Cydweithrediadau'r Heddlu CHTh.

Darparu gwasanaethau effeithiol a hygyrch i ddioddefwyr a phobl fregus – mae hyn yn newid o felyn i wyrdd. Cyflwynwyd adroddiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar wasanaethau i ddioddefwyr ym mis Hydref 2024 a daeth data i law gan bob darparwr gwasanaeth yn dangos canlyniadau cadarnhaol. Darparwyd y cyflwyniad terfynu gan Goleudy fel rhan o gau'r contract, ac mae'r risg sy'n deillio o hynny wedi'i thynnu oddi ar y gofrestr risg. Dechreuodd contract newydd gyda Chymorth i Ddioddefwyr ym mis Tachwedd 2024 a bydd data yn cael ei ddarparu ar gyfer ffurflenni diwedd y flwyddyn.

**Crynodeb:**

O'r 50 maes gweithredu:

| | Chwarter 1 | Chwarter 1 | Chwarter 2 | Chwarter 2 | Chwarter 3 | Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Coch | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Melyn | 19 | 38% | 21 | 42% | 13 | 26% |
| Gwyrdd | 31 | 62% | 29 | 58% | 37 | 74% |

**17a) Gosod cyfeiriad ac amcanion strategol yr heddlu drwy'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae'n rhaid i'r cynllun hwn roi sylw i'r Gofyniad Plismona Strategol**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 3 |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu Cynllun Heddlu a Throseddu yn unol â'r gofynion a nodir yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (Rhan 1; Pennod 3; 7) | | Cwblhawyd Cynllun Heddlu a Throseddu 2025-29 ar 25 Tachwedd 2024 yn dilyn cyfnod o ymgynghori helaeth, gan gynnwys ystyriaeth gan y Panel Heddlu a Throseddu ar 25 Hydref 2024. Mae cyfieithu, dylunio ac argraffu ar y gweill ar hyn o bryd, gyda digwyddiad lansio gydag asiantaethau partner wedi'i gynllunio ar gyfer mis Chwefror. |
| Datblygu Cynllun Cyflenwi ar gyfer yr Heddlu a Throseddu i gefnogi cyflawni'r amcanion a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu | | Mae Cynllun Busnes SCHTh yn rhoi manylion mewn perthynas â sut y bydd SCHTh yn cefnogi cyflawni'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae hyn yn cael ei adrodd i'r Panel Heddlu a Throseddu bob chwarter. Cymeradwywyd y cynllun busnes ar gyfer 2024/25 gan y Panel Heddlu a Throseddu ar 15 Mai 2024 er gwybodaeth. Bydd gwaith yn dechrau'n fuan ar Gynllun Busnes/Gweithredol SCHTh ar gyfer 2025/26 nawr bod y Cynllun Heddlu a Throseddu wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol. |
| Adolygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben | | Cwblhawyd Cynllun Heddlu a Throseddu 2025-29 ar 25 Tachwedd 2024 yn dilyn cyfnod o ymgynghori helaeth, gan gynnwys ystyriaeth gan y Panel Heddlu a Throseddu ar 25 Hydref 2024. Mae cyfieithu, dylunio ac argraffu ar y gweill ar hyn o bryd, gyda digwyddiad lansio gydag asiantaethau partner wedi'i gynllunio ar gyfer mis Chwefror. |

**17b) Craffu, cefnogi a herio perfformiad cyffredinol yr heddlu gan gynnwys yn erbyn y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn y cynllun**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 3 |
|---|---|---|
| Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol ar waith i gefnogi craffu effeithiol | | Mae adolygiad o drefniadau llywodraethu wedi'i gynnal ac mae trefniadau newydd wedi'u gweithredu er mwyn cyflawni cyfrifoldebau statudol y CHTh yn well a sicrhau craffu effeithiol. Mae elfen olaf hyn yn ymwneud â'r dull sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer craffu manwl / pwyllgor dethol - ystyriwyd manylion y dull hwn yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ym mis Ionawr 2025, lle cafodd y prif swyddogion adborth cadarnhaol. |

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu ac adolygiad blynyddol y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol | | Mae Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig wedi'i ddatblygu a'i gytuno. Mae wedi'i gyhoeddi'n fewnol ac mae i'w gyhoeddi ar wefan allanol SCHTh yn fuan (yn aros am gyfieithiad ar hyn o bryd). |
| Sefydlu amserlen o weithgareddau sy'n seiliedig ar risg ac sy'n edrych i'r dyfodol i gefnogi gwelliannau ym mherfformiad yr heddlu | | Nod y SCHTh yw drafftio argymhellion a sylwadau'r paneli craffu o fewn deg diwrnod gwaith i'r cyfarfod. Yna mae'r adroddiadau'n cael eu dosbarthu i'r rhai sy'n bresennol ar gyfer sylwadau cyn iddynt gael eu hanfon at yr heddlu ar gyfer eu harsylwadau.<br><br>Mae SCHTh yn cysylltu â'r adran berthnasol o fewn yr heddlu i gael ymateb i'r argymhellion a'r sylwadau a nodwyd gan y paneli craffu. Ar ôl ei gymeradwyo, caiff yr adroddiad terfynol ei gyfieithu a'i gyhoeddi ar wefan SCHTh. |
| Sicrhau bod barn y cyhoedd yn cael ei chynrychioli yng ngwaith craffu'r CHTh | | Parhaodd y craffu drwy'r Panel Datrysiad y Tu Allan i'r Llys a'r gwirfoddolwyr ar y Panel Sicrhau Ansawdd a'r Panel Craffu Annibynnol ar Ddalfeydd.<br><br>Adolygodd y Panel Datrysiad y Tu Allan i'r Llys achosion o droseddau casineb/menywod a gwahaniaethu. Edrychwyd ar 11 achos i gyd, chwech oedolyn a phum unigolyn ifanc. Roedd argymhellion a chanfyddiadau'r panel yn cynnwys sicrhau bod awdurdodiad arolygydd yn bresennol ar droseddau a waethygwyd gan hiliaeth, sicrhau bod rheswm cyfiawn yn bresennol pan gaiff cyhuddiad ei ollwng, a bod y polisi Datrysiad y Tu Allan i'r Llys yn cael ei ddilyn a'i gynnwys mewn unrhyw ddogfennau, gan sicrhau bod dull cyson o gyhoeddi Datrysiad y Tu Allan i'r Llys ledled Dyfed Powys. Yn ogystal, sefydlodd yr heddlu'r cyfarfod strategol ar gyfer Datrysiad y Tu Allan i'r Llys yn ddiweddar, sef y cyfarfod llywodraethu y bydd y panel craffu yn bwydo iddo (achosion oedolion yn unig).<br><br>Cynhaliwyd un cyfarfod Panel Sicrhau Ansawdd ym mis Tachwedd a chanolbwyntiodd ar 'lais y plentyn' drwy gydol yr ymchwiliadau. Gofynnwyd chwe chwestiwn i'r panel i'w gwirio yn erbyn achosion a ddewiswyd ar hap er mwyn sicrhau |

| | | |
|---|---|---|
| | | bod llais y plentyn yn cael ei ystyried ym mhob cam allweddol o'r ymchwiliad, sy'n hanfodol i sicrhau bod y sefydliad yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn.<br><br>Cyfarfu'r Panel Craffu Annibynnol ar Ddalfeydd ym mis Rhagfyr i adolygu achosion menywod a merched yn y ddalfa. Daeth y pwnc hwn yn sgil adroddiad y Fonesig Vera Baird ym mis Awst 2023 a gynhaliodd ymchwiliad annibynnol i driniaeth menywod a merched a oedd wedi cael eu harestio a'u cymryd i ddalfa'r heddlu ym Manceinion Fwyaf. O fewn yr adroddiad, canolbwyntiodd yn benodol ar ddefnydd priodol, neu fel arall, o noeth-chwiliadau a chwiliadau personol, gan gynnwys tynnu a newid dillad a nododd arestiadau anghyfreithlon, defnydd diangen o rym, peidio â rhoi cynhyrchion hylendid benywaidd i enwi ond rhai. Er mwyn darparu rhagor o graffu a sicrwydd, canolbwyntiodd y Panel Craffu Annibynnol ar Ddalfeydd ar fenywod a merched yn y ddalfa a chanfuwyd yn gyffredinol: o'r 11 achos a adolygwyd, ni chafodd naw eu noeth-chwilio ac roedd oedolyn rhesymol a phriodol yn bresennol yn yr un achos arall. Gofynnwyd i bob unigolyn benywaidd a gadwyd yn y ddalfa a oedd am siarad â swyddog benywaidd, cynigiwyd cynhyrchion mislif i bob unigolyn benywaidd yn y ddalfa. Nododd y panel y meysydd canlynol i'w gwella: o fewn dau achos ni allent ganfod a oedd swyddog benywaidd wedi'i neilltuo i unigolyn benywaidd yn y ddalfa, ni ddangosodd dau gofnod unrhyw fanylion am lefel risg yr arsylwi a chafwyd pedwar achos lle nad oedd tystiolaeth bod gwasanaethau cymorth wedi'u darparu. |
| Goruchwylio a gweithredu argymhellion arolygiaeth allanol | | Cyflwynwyd 5/5 o ymatebion o fewn yr amserlen statudol:<br><br>1. Cynnydd i gyflwyno model gweithredu cenedlaethol ar gyfer ymchwiliadau i dreisio a throseddau rhywiol difrifol eraill |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyhoeddwyd 22 Awst 2024. Disgwyliwyd ymateb CHTh ar 17 Hydref 2024, cyflwynwyd ar 11 Hydref 2024.<br><br>2. Arolygu actifiaeth a didueddrwydd ym maes plismona<br><br>Cyhoeddwyd 10 Medi 2024. Disgwyliwyd ymateb CHTh ar 5 Tachwedd 2024, cyflwynwyd ar 11 Hydref 2024.<br><br>3. Arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant: Adroddiad trosolwg 2019-2024<br><br>Cyhoeddwyd 19 Medi 2024. Disgwyliwyd ymateb CHTh ar 14 Tachwedd 2024, cyflwynwyd ar 12 Tachwedd 2024.<br><br>4. Ymateb yr heddlu i ymddygiad gwrthgymdeithasol: Adroddiad sbotolau ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu:<br><br>Cyhoeddwyd 10 Hydref 2024. Disgwyliwyd ymateb CHTh ar 5 Rhagfyr 2024, cyflwynwyd ar 2 Rhagfyr 2024.<br><br>5. Ymatebion amlasiantaeth i drais difrifol gan bobl ifanc: cydweithio i gefnogi ac amddiffyn plant<br><br>Cyhoeddwyd 20 Tachwedd 2024. Disgwyliwyd ymateb CHTh erbyn 15 Ionawr 2025. Dychwelwyd â sylwadau 19 Rhagfyr 2024: Nid yw’n berthnasol i Gymru, felly ni chyflwynwyd sylw gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. |

**17c) Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff yr heddlu**

| Camau i’w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 3 |
|---|---|---|
| Datblygu fframwaith a strwythur perfformiad sy’n caniatáu gwell dealltwriaeth | | Cafodd Cynllun Busnes 2024/2025 ei ystyried gan y Panel Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2024. Darperir diweddariadau chwarterol i’r panel. Mae |

| | | |
|---|---|---|
| o ganlyniadau'r Cynllun Heddlu a Throseddu | | gwaith ar gynllun gweithredol newydd ar gyfer 2025/2026 wedi dechrau i baratoi ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. |
| Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol ar waith i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff | | Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol ar waith i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff, fodd bynnag maent yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd i sicrhau bod trefniadau mor effeithiol â phosibl Yn dilyn yr adolygiad o drefniadau llywodraethu, mae'r rhain yn cael eu gwella ymhellach drwy sefydlu Bwrdd Perfformiad Strategol chwarterol - a dull craffu manwl / pwyllgor dethol. |
| Adolygiad Datblygiad Proffesiynol y Prif Gwnstabl | | Cyfarfu'r CHTh a'r Prif Gwnstabl ar 7 Hydref 2024 i drafod perfformiad y Prif Gwnstabl a'i ffocws ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Daeth adroddiad gan y CHTh i law ym mis Rhagfyr 2024 yn manylu ar dystiolaeth yn ymwneud â pherfformiad y Prif Gwnstabl mewn perthynas â'r amcanion a osodwyd wrth ei benodi. Cynhelir cyfarfod pellach dros yr wythnosau nesaf lle bydd amcanion newydd ar gyfer y Prif Gwnstabl yn cael eu halinio â blaenoriaethau newydd y Cynllun Heddlu a Throseddu. |

**17d) Penderfynu ar y gyllideb, gan ddyrannu asedau ac arian i'r Prif Gwnstabl; a gosod y praesept ar gyfer ardal yr heddlu**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Hysbysu penderfyniad CHTh mewn perthynas â'r praesept | | Mae gwaith manwl wedi'i wneud drwy gydol 2024/2025 gan gynnwys llawer o drafodaethau â phrif swyddogion, seminar cyllid ar gyfer y Panel Heddlu a Throseddu ac aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio a chyfarfodydd dilynol gydag Is-grŵp Praesept y Panel Heddlu a Throseddu. |
| Pennu cynllun ariannol tymor canolig | | Yn dilyn craffu helaeth gan y Panel Heddlu a Throseddu a'r Cyd-bwyllgor Archwilio, mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2025/2026 - 2029/2030 wedi'i ddatblygu a bydd yn cael ei gyflwyno i'r panel ym mis Ionawr i'w ystyried. |

| | | |
|---|---|---|
| Ariannu rhaglen gyfalaf i ddarparu asedau priodol i'r heddlu er mwyn darparu gwasanaethau plismona effeithiol | | Mae'r rhaglen gyfalaf wedi'i diwygio i adlewyrchu gofynion yr heddlu ac wedi'i dogfennu yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae gwaith manwl wedi parhau i ddatblygu ymhellach yr rhaglen gyfalaf tymor hwy (deng mlynedd) sy'n rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, y Strategaeth Gyfalaf a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Bydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael ei ystyried gan y Panel Heddlu a Throseddu ym mis Ionawr 2025. |

**17e) Penodi Prif Gwnstabl**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 3 |
|---|---|---|
| Penodi Prif Gwnstabl | | Penodwyd y Prif Gwnstabl ym mis Rhagfyr 2021. |

**17f) Cael gwared ar y Prif Gwnstabl**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 3 |
|---|---|---|
| Dilyn y broses a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 8 i Ddeddf 2011 a rheoliadau a wnaed o dan Adran 50 o Ddeddf yr Heddlu 1996(a) | Amherthnasol | Amherthnasol |

**17g) Cynnal heddlu effeithlon ac effeithiol ar gyfer ardal yr heddlu**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 3 |
|---|---|---|
| Sicrhau y darperir gwerth am arian | | Mae cyfrifoldebau a threfniadau ar gyfer ymdrechu i gyflawni gwerth am arian wedi'u hymgorffori drwy gydol y Fframwaith |

| | | |
|---|---|---|
| | | Llywodraethu Corfforaethol ac mae archwilio mewnol ac allanol yn ceisio sicrwydd bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnydd y CHTh a'r Prif Gwnstabl o adnoddau, ac mae'r Bwrdd Cyllid a Strategaeth yn goruchwylio'r trefniadau. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn parhau i gymryd rhan mewn nifer o gyfarfodydd llywodraethu'r heddlu sy'n ystyried agweddau ar werth am arian yn rheolaidd ac adroddir ar gynnydd trefniadau i'r Bwrdd Plismona a'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn rheolaidd. Mae templedi achosion busnes wedi'u safoni i gynnwys buddion i gefnogi craffu a'r byrddau priodol. |
| Cydymffurfiaeth statudol ystadau gan sicrhau eu bod yn addas at y diben ar gyfer defnydd gweithredol | | Mae'r tîm Ystadau ac Iechyd a Diogelwch yn parhau i gynnal asesiadau strwythuredig misol ar y cyd o gydymffurfiaeth statudol gan sicrhau safonau cydymffurfio uchel. Mae hwn yn fecanwaith annibynnol sy'n parhau i ddarparu adroddiadau ar gydymffurfiaeth i lywodraethu cyfarfodydd y Grŵp Ystadau Strategol a'r Bwrdd Iechyd a Diogelwch. Mae tystiolaeth o welliant o fis i fis gyda chamau lliniarol a chynlluniau unioni ar waith ar gyfer unrhyw waith adfer a nodwyd cyn cau, nid oes angen uwchgyfeirio, ac mae darpariaeth gwasanaeth yn cael ei rheoli mewn modd strwythuredig a systematig. |
| Archwilio cyfleoedd i leihau effaith amgylcheddol | | Mae'r Grŵp Llywio Cynaliadwyedd yn parhau i weithredu o dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Cyllid ac yn parhau i flaenoriaethu mentrau a strategaethau allweddol i gyflawni sero net erbyn 2050. Mae nifer o aelodau wedi mynychu Hyfforddiant Llythrennedd Carbon a Llwybr i Sero Net yn ddiweddar ac mae'r Swyddog Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio yn adolygu cynllun hyfforddi cynaliadwyedd ar gyfer yr holl staff a swyddogion yn yr heddlu.<br><br>Mae'r Swyddog Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio newydd dan reolaeth y tîm iechyd a diogelwch wedi dechrau yn y rôl, ac mae hyn wedi rhoi cyfle a llwyfan ar unwaith i ddarparu strwythur/proses |

| | | |
|---|---|---|
| | | a gosod dulliau wedi'u dogfennu sy'n gysylltiedig â'n disgwyliadau llywodraethu a pherfformiad fel sefydliad. Ar gyfer llywodraethu, bydd yr ymrwymiadau'n cael eu hadolygu, eu monitro a'u trafod yn y Grŵp Ystadau Strategol.<br><br>Mae TIAA wedi archwilio timau cynaliadwyedd Cymru gyfan a phob heddlu yng Nghymru yn ystod y cyfnod diwethaf, mae Dyfed-Powys yn aros am adroddiad archwilio o archwiliad mis Ionawr ond mae'r themâu allweddol fel a ganlyn:<br><br>- Datblygu strategaeth cynaliadwyedd Heddlu Dyfed-Powys<br><br>- Gwella casglu data<br><br>- Cyfathrebu<br><br>- Hyfforddiant<br><br>- Atebolrwydd dros ddatgarboneiddio<br><br>- Ymgorffori cynaliadwyedd ledled yr heddlu<br><br>- Mae prif ganlyniadau y cyfnod diwethaf yn cynnwys:<br><br>- Penodi Swyddog Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio<br><br>- Ffurfioli strategaeth gynaliadwyedd yr heddlu (cynnydd gwaith).<br><br>- Cynlluniau adrannol – integreiddio tair colofn (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol) cynaliadwyedd (cynnydd gwaith)<br><br>- Cydweddu llywodraethu ac atebolrwydd ledled yr heddlu (cynnydd gwaith)<br><br>Y prof ffocws ar gyfer y cyfnod nesaf yw:<br><br>Byddwn yn darparu strwythur a mapiau llwybr clir ar gyfer pob adran a dadansoddiad o gamau gweithredu i ddatgarboneiddio'r heddlu yn unol â'n hymrwymiad sero net ar gyfer 2050. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae tueddiadau a gwelliannau defnydd cyfleustodau yn parhau i gael eu holrhain ar lefel cyfleustodau adeiladau. Gellir alinio hyn â nifer o newidiadau bach a chynlluniau lleol sy'n parhau i gael eu cymhwyso a'u cyflawni ar draws yr ystad. Mae cam hyfywedd prosiect fferm solar y Pencadlys wedi cael mewnbwn a'r costau gan Western Power, cadarnhad y gellir darparu ar gyfer seilwaith wedyn, ac mae cytundeb wedi'i roi i ganiatáu i'r cynllun symud ymlaen i'r cam achos busnes nesaf ar gyfer ei gyflawni o bosibl yn y flwyddyn ariannol 2025/26.<br><br>Mae prosiect seilwaith gwefru cerbydau trydan yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Mae safleoedd pellach yn cael gwefrwyr ac mae seilwaith yn cael ei osod mewn gweithdai cynnal a chadw cerbydau sy'n cefnogi profi cyfleusterau a gwefru yn ystod oriau gweithredu'r garej.<br><br>Mae prosiect goleuadau LED Y Drenewydd yn parhau a bydd yn sicrhau y bydd rhwydwaith cyfan y pencadlys rhanbarthol yn defnyddio goleuadau LED erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.<br><br>Mae blaenoriaeth y prosiect Effeithlonrwydd Ynni Adeiladau i'w gyflawni yn y cyfnod nesaf yn ymwneud â rheolaethau a thechnoleg rheoli adeiladau. Bydd y fanyleb a'r broses dendro gyfredol yn sicrhau y bydd mwy o reolaeth a data ar gael ar ôl ei gyflawni yn y 3 i 4 mis nesaf.<br><br>Mae gwahanu gwastraff yn ôl gofynion Llywodraeth Cymru wedi'i gyflawni ac mae'n parhau i gael ei fonitro a'i asesu ar gyfer gwelliannau pellach. |
| Archwilio a gwneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu allanol | | Mae trafodaethau cyfarfodydd byrddau prosiect Strydoedd Saffach 5 a diweddariadau ar hawliadau gan bartneriaid wedi rhoi sicrwydd bod gweithgaredd y prosiect ar y trywydd iawn i fodloni disgwyliadau chwarter 3. Codwyd risg gyda'r Prif Swyddog Cyllid ynghylch dau bartner nad ydynt wedi datgan unrhyw wariant hyd yn hyn. Anfonwyd nodyn atgoffa at y partneriaid hyn i sicrhau bod hyn yn cael ei ddiweddaru yn ystod |

| | | |
|---|---|---|
| | | chwarter 3 er mwyn sicrhau bod arian gwirioneddol yn cael ei ddatgan o fewn ffurflenni hawlio, gan adlewyrchu'r gwasanaethau gwirioneddol sydd wedi'u darparu hyd yma.<br><br>Profodd cyfarfodydd unigol a gynhaliwyd â phob partner mewn ardaloedd â phroblem ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fuddiol yn ystod y chwarter hwn. Nodwyd bod pob partner yn ymgysylltu â'r broses hawlio ac yn deall y gofynion yn well. Cadarnhaodd yr holl bartneriaid y bydd y rhan fwyaf o weithgareddau prynu offer a/neu weithgarwch hyfforddi yn cael eu cwblhau yn chwarter 4. Mae oriau patrolio wedi cynyddu ar draws yr holl bartneriaid sy'n cynnal y gweithgaredd hwn yn ystod chwarter 3. Mae ymarfer ôl-ddyddio oriau (a anogwyd a chymeradwywyd gan y Swyddfa Gartref) wedi sicrhau bod yr oriau patrolio gofynnol a nodir yn amodau'r grant wedi'u rhagori tri mis cyn diwedd cyfnod y grant.<br><br>Cytunwyd ar ymyriadau Dyletswydd Trais Difrifol er mwyn sicrhau bod y dyraniad cronfa lawn yn cael ei wario erbyn diwedd y flwyddyn yn ystod chwarter 3 a'u cymeradwyo gan y Swyddfa Gartref. Bydd y rhan fwyaf o'r cyllid yn cael ei wario yn ystod chwarter 4 gyda rhywfaint o fanylion hawlio wedi'u datgan ar gyfer chwarter 3. Cychwynnir cyfarfodydd bwrdd misol gydag arweinwyr ymyrraeth a byddant yn parhau tan ddiwedd y cyfnod ariannu (31 Mawrth 2025). |
| Archwilio a gwneud y mwyaf o gyfleoedd menter noddi | | Mae SCHTh yn parhau i weithredu fel aelod o Fwrdd Cronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer cynghorau Ceredigion a Sir Gaerfyrddin ac yn cyfrannu at drafodaethau ynghylch cyllid cymunedol i wella'r rhanbarth. Cyfathrebir yn rheolaidd â chynghorau Sir Benfro a Phowys.<br><br>Mae gwaith yn parhau i geisio cymorth gan ffynonellau cyllid eraill i ychwanegu at ein cyfeiriadur cyswllt i'w rannu ag ymgeiswyr am gyllid nad ydynt yn bodloni amodau ariannu CHTh. Mae hyn yn galluogi ymgeiswyr am gyllid i |

| | | |
|---|---|---|
| | | geisio cyllid o ystod mor eang â phosibl o ffynonellau.<br><br>Mae cyfeiriadur busnes i gynnwys pob busnes canolig i fawr yn Nyfed Powys wedi'i ddatblygu ac mae aelodau'r tîm yn ei lenwi. Mae hyn hefyd yn cynnwys grwpiau consortiwm busnes a chyllid sydd wedi'u lleoli yn y rhanbarth i gefnogi twf a chefnogaeth gymunedol. Mae llythyr wedi'i ddrafftio i ymgysylltu â busnesau lleol ynghylch nawdd a chyfleoedd cydweithredol gyda'r CHTh. Cyhoeddir hwn yn dilyn lansio'r Cynllun Heddlu a Throseddu yn ystod chwarter 4. |
| Gweithredu a chynnal cofrestr risg i nodi a lliniaru risgiau i SCHTh a'r heddlu | | Mae risgiau'n parhau i gael eu monitro gan y tîm uwch-reolwyr bob pythefnos ac yn cael eu hadrodd i'r Cyd-bwyllgor Archwilio bob chwarter.<br><br>Mae deialog parhaus â chynrychiolwyr yr heddlu sy'n gyfrifol am risg i sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chynnwys ar y cofrestrau risg. |
| Defnyddio cynlluniau hyfforddi a datblygu ar gyfer holl staff SCHTh | | Mae staff yn parhau i ddefnyddio cyfleoedd hyfforddi priodol a pherthnasol sydd wedi'u nodi trwy gynlluniau hyfforddi. Mae gwaith wedi'i wneud yn fewnol mewn perthynas ag anghenion hyfforddi er mwyn bwydo i'r gofynion gosod cyllideb ar gyfer 2025/26. |

**17h) Ymrwymo i gytundebau cydweithio gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eraill, cyrff plismona a phartneriaid eraill**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 3 |
|---|---|---|
| Archwilio cyfleoedd cydweithio yn unol â Gweledigaeth Plismona i Gymru | | Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Bwrdd Goruchwylio Cydweithrediadau'r Heddlu, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ym mis Ionawr 2025, sy'n rhoi cyfle i graffu a goruchwylio ar y cyd ar berfformiad cydweithrediadau sy'n effeithio ar heddluoedd yng Nghymru a chyfle i archwilio cyfleoedd yn unol â'r Weledigaeth ar gyfer Plismona yng Nghymru. Bydd pob un o'r pedwar CHTh yn cynnwys |

| | | |
|---|---|---|
| | | datganiad 'gweledigaeth a rennir' yn eu Cynlluniau Heddlu a Throseddu unigol lle maent yn ymrwymo i weithio'n gydlynol i archwilio cyfleoedd i wella plismona yng Nghymru. |
| Archwilio cyfleoedd cydweithio gyda phartneriaid eraill | | Lansiwyd y Fforwm/Grŵp Cyllido a Phrosiectau mewn cydweithrediad â'r heddlu ym mis Medi 2024.<br><br>Mae cyfarfodydd misol yn mynd rhagddynt yn dda gydag arweinwyr trawsadrannol yn cydweithio i ddeall safbwyntiau ac anghenion yn well i gefnogi datblygu cynigion i gyrraedd y safonau disgwyliedig. Mae prosiectau a chynigion ariannu a ddaw i law yn cael eu cyfeirio'n gyflym i'r llwybr priodol, gyda chyngor ac arweiniad yn cael eu darparu i symud ymlaen yn briodol.<br><br>Mae cydweithio cadarnhaol yn parhau gyda Chydlynydd Partneriaeth newydd yr heddlu. Mae gweithgaredd trawsadrannol wedi arwain at rannu nifer o brosiectau posibl ac mae contract caffael sy'n chwilio am gyfleoedd adeiladu ac ailddatblygu o fewn Dyfed Powys i'w cefnogi i fodloni amodau gwerth cymdeithasol.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfodydd â phartneriaeth Chwaraeon Gorllewin Cymru a chyfarfodydd pellach ynghylch cyfleoedd ariannu cydweithredol posibl sy'n cysylltu â mentrau chwaraeon sefydledig ledled y rhanbarth.<br><br>Rhannwyd cyfleoedd hyrwyddo Youth Endowment Fund â mentrau ieuenctid ar draws y rhanbarth a chynhaliwyd cyfarfod gyda Premier League Kicks Abertawe ac Area 43 i archwilio ymhellach. |
| Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol ar waith i graffu ar gytundebau cydweithio | | Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Bwrdd Goruchwylio Cydweithrediadau'r Heddlu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ym mis Ionawr 2025, sy'n rhoi cyfle i graffu a goruchwylio ar y cyd berfformiad cydweithrediadau sy'n effeithio ar heddluoedd yng Nghymru. Bydd yn canolbwyntio ar sicrhau bod cydweithrediadau'n darparu gwerth am arian a manteision amlwg i bobl Cymru, gan weithio i gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Plismona yng Nghymru. |

**17i) Darparu cyswllt lleol rhwng yr heddlu a chymunedau, gan weithio i roi dymuniadau a dyheadau dilys y cyhoedd ar waith**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 3 |
|---|---|---|
| Gweithio gyda'r heddlu i ddatblygu a gweithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd; bodloni'r amcanion ynddo | | Mae gweithgaredd wedi parhau yn ein nod o gyflawni amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd newydd a lansiwyd yn chwarter 2. Yn benodol o ran cryfhau ein perthnasoedd â chymunedau. Diolchwyd i bob grŵp lleiafrifol am rannu eu barn â'r SCHTh fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Cynllun Heddlu a Throseddu newydd. Fe wnaethon ni hefyd wahodd y grwpiau i gymryd rhan yn ein ymgynghoriad ar y praesept a gynhaliwyd yn ystod mis Rhagfyr. Yn ogystal, rydym wrthi'n ystyried amrywiol opsiynau ar gyfer mesur ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn plismona yn ardal Dyfed-Powys a byddwn yn darparu papur opsiynau i'r CHTh i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn chwarter 4. |
| Datblygu a gweithredu Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu SCHTh a'i chynllun gweithredu, a pholisi a strategaeth cyfryngau cymdeithasol yn ymgorffori darparu cyfleoedd i gymunedau lleol lywio a dylanwadu ar benderfyniadau a hyrwyddo gwaith y CHTh a'r Prif Gwnstabl yn rhagweithiol. | | **Diwrnodau a digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned**<br><br>Mae'r Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned yn ystod chwarter 3. Ym mis Hydref, ymwelodd â Sir Benfro lle cyfarfu ag ysgol gynradd leol, Ysgol San Marc a chyfarfu â'r pennaeth yn ogystal â llywodraethwr yr ysgol i drafod rhai materion yr oeddent wedi bod yn delio â nhw. Gan mai Wythnos Gweithredu ar Droseddau Gwledig ydoedd, cyfarfu hefyd â'r Tîm Troseddau Gwledig lleol i drafod ymchwiliadau yr oeddent wedi gweithio arnynt yn ddiweddar. Ym mis Tachwedd gwahoddodd y llysgenhadon ieuenctid i fynd gydag ef ar ddiwrnod ymgysylltu â'r gymuned yn Sir Gaerfyrddin, lle ymwelodd â Dalfa Dafen, swyddogion Plismona Bro ac Atal Lleol yn Cross Hands i drafod materion lleol â chynghorwyr sir yn ogystal â chyfarfod â'r Prif Gwnstabl.<br><br>Ym mis Rhagfyr cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus a chymhorthfa gymunedol gyntaf yn Llanbedr Pont |

Steffan, Ceredigion, digwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod ac ar ôl diwrnod ymgysylltu â'r gymuned yng Ngheredigion. Yn gyntaf, ymwelodd y Comisiynydd â Depot, Area 43 yn Aberteifi i weld y datblygiadau diweddar yn yr adeilad ers derbyn cyllid yn ddiweddar gan SCHTh. Yn ddiweddarach, cyfarfu â chynghorwyr tref lleol yn Aberaeron lle trafododd bryderon lleol yn ogystal â gwelliannau yn y dref ers gosod camerâu cylch cyfyng newydd. Roedd hefyd yn gyfle i drafod ymgyrch Ivydene, ymgyrch lle mae swyddogion y tîm plismona bro yn ceisio mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn nhref Aberaeron. Gwahoddwyd y comisiynydd i fynychu Ysgol Bro Pedr, trwy ymweld â dosbarth troseddeg lle bu'n cymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb gyda'r disgyblion. Yn ystod diwrnod ymgysylltu â'r gymuned, cynhaliodd aelodau staff SCHTh gymhorthfa gymunedol yn y brifysgol yn Llanbedr Pont Steffan, lle gwahoddwyd aelodau'r cyhoedd i fynychu i ofyn cwestiynau, dysgu mwy am waith y swyddfa a chodi unrhyw bryderon a materion lleol.

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Victoria gyda'r nos, lle gwahoddwyd trigolion, busnesau a sefydliadau yn Llanbedr Pont Steffan i ddod i gyfarfod â'r CHTh ac uwch swyddogion heddlu yng Ngheredigion. Roedd yn gyfle i'r cyhoedd godi pryderon lleol a gofyn cwestiynau gweithredol, a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau diweddar yn yr ardal. Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Ann Bowen Morgan, gyda'r Uwch-arolygydd Steve Davies yn ymuno â'r CHTh ar y panel, yn ogystal â'r Prif Arolygydd Christina Fraser a'r Arolygydd Plismona Bro Matthew Howells yn bresennol.

**Crynodeb o'r Fforwm Ymgysylltu â Ieuenctid**

Mynychodd y llysgenhadon ieuenctid bencadlys yr heddlu ddydd Mercher 13 Tachwedd 2024 i gysgodi'r CHTh ar ddiwrnod ymgysylltu â'r gymuned. Roedd hyn ar gyfer Diwrnod Plant y Byd. Yn ystod y dydd, ymwelasant â dalfa Dafen

gydag Ymwelwyr Annibynnol â'r Dalfa i ddysgu mwy am y gwaith o ddydd i ddydd mewn amgylchedd dalfa weithredol.

Fe wnaethon nhw hefyd gyfarfod â PC 1045 Alex Jones a ddangosodd gerbyd plismona'r ffyrdd iddynt ac arddangos sut mae drôn yn gweithio. Yn ystod prynhawny diwrnod ymgysylltu â'r gymuned, cyfarfu'r CHTh â'r Prif Gwnstabl Dr Richard Lewis, lle cafodd y llysgenhadon ieuenctid gyfle hefyd i fod yn rhan o'r cyfarfod hwn a gofyn unrhyw gwestiynau yn ymwneud â phlismona i'r CHTh a'r Prif Gwnstabl. Yn olaf, fe wnaethant gyfarfod â'r Prif Arolygydd Shaun Bowen a gynigiodd gynnwys y llysgenhadon ieuenctid mewn Panel Craffu Ieuenctid, lle byddan nhw'n cael y cyfle i adolygu digwyddiadau fel stopio a chwilio a defnyddio grym a rhoi adborth a rhannu eu meddyliau a'u barn ar sut y cafodd pob achos ei drin gan Heddlu Dyfed-Powys.

Mae hyn bellach yn cael ei ystyried ar gyfer chwarter 4 yn 2025 lle bydd cynllun peilot o banel craffu yn digwydd.

**Y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr**

Gofynnodd y Ditectif Brif Arolygydd Llyr Williams i'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr roi adborth ar Arolwg Ymgysylltu â Dioddefwyr a ddatblygwyd gan Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer dioddefwyr treisio a throseddau rhywiol difrifol eraill. Crëwyd yr arolwg hwn i roi cyfle i ddioddefwyr leisio eu barn ar y gwasanaeth a dderbyniwyd ar ôl rhoi gwybod i'r heddlu am y mater. Mae Heddlu Dyfed-Powys eisiau sicrhau bod dioddefwyr yn cael 'cyfiawnder gweithdrefnol' ac mae'r arolwg ymgysylltu hwn yn caniatáu iddynt fonitro ymgysylltiad swyddogion â dioddefwyr i sicrhau eu bod yn bodloni disgwyliadau. Dosbarthwyd yr arolwg hwn i aelodau ein Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr i rannu eu barn a'u meddyliau ar hyn, cyn ei rannu ag eraill. Roedd hwn yn gyfle i aelodau ofyn cwestiynau perthnasol i'r heddlu ac awgrymu newidiadau angenrheidiol.

Gwnaed cais hefyd i gynnwys aelodau'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yng Nghynllun Gweithredu Hil yr Heddlu. Gofynnodd y Ditectif Brif Arolygydd Wayne Bevan i aelodau ddangos diddordeb yn ei gefnogi i sicrhau bod pobl Dduon yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol a'u bod yn cael eu cefnogi'n briodol fel dioddefwyr troseddau ac fel grwpiau agored i niwed. Mynegodd dau aelod o'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr eu diddordeb a chyfarfu'r ddau â'r Ditectif Brif Arolygydd i drafod eu rôl a'r cynlluniau ar gyfer y cynllun gwaith. Bydd hyn yn parhau tan 2025.

**Y Cynllun Heddlu a Throseddu**

Mae'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd wedi'i gynllunio ac mae bron â chael ei gwblhau. Mae'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar hyn o bryd yn y cyfnod darllen proflenni terfynol, tra bod y fersiwn hawdd ei ddeall hygyrch eisoes ar gael. Rydym hefyd yn y broses o greu pedwar fideo byr ar gyfer cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at flaenoriaethau'r cynllun a rhoi trosolwg mewn fformat deniadol a hawdd ei ddeall. Bydd y rhain yn ategu'r cynllun ac yn helpu i gyfleu ei negeseuon allweddol yn effeithiol. Mae'r argraffu i fod i ddechrau cyn bo hir, ac mae popeth ar y trywydd iawn ar gyfer y lansiad swyddogol ar Chwefror 13 2025.

**Praesept yr Heddlu 2025/2026**

Rhwng 6 Rhagfyr 2024 a 6 Ionawr 2025, cynhaliwyd ymgyrch hyrwyddo gynhwysfawr i godi ymwybyddiaeth am ymgynghoriad praesept Heddlu Dyfed-Powys. Sicrhaodd yr ymgyrch 707 o ymatebion i gyd, gyda'r cydrannau allweddol canlynol:

1. Ymgyrch 'In Your Area' (IYA) Wales Online

Roedd ymgyrch hysbysebu â thâl pythefnos o hyd gyda Wales Online yn cynnwys erthygl hanner tudalen gyda'r nod o annog trigolion Dyfed-Powys i gymryd rhan.

2. Hysbysebu Meta

Dyrannwyd £50 i hysbysebion Meta (Facebook ac Instagram), o 6 Rhagfyr 2024 i 6 Ionawr 2025. Targedwyd yr hysbysebion hyn i sicrhau cyrhaeddiad eang ar draws ardal Dyfed-Powys ac fe wnaethant gyfeirio defnyddwyr yn llwyddiannus at yr arolwg.

3. Datganiadau i'r wasg ac erthyglau newyddion

Anfonwyd datganiadau i'r wasg at gyfryngau lleol i sicrhau sylw eang. Roedd yr erthyglau hyn yn egluro'r broses ymgynghori ac yn pwysleisio pwysigrwydd adborth y cyhoedd.

4. Cyfathrebu uniongyrchol drwy e-bost

Anfonwyd negeseuon e-bost wedi'u targedu at grwpiau cymunedol, rhanddeiliaid lleol, a sefydliadau partner. Lledaenodd y cyfathrebu uniongyrchol hwn yr wybodaeth yn ehangach o fewn y rhanbarth.

**Bwletinau misol a gweithgaredd cyfryngau cymdeithasol**

Yn ystod y cyfnod hwn, cyhoeddom bedwar e-fwletin misol yn crynhoi gwaith y comisiynydd a'i swyddfa, gan gynnwys mater yn canolbwyntio ar braesept. Rydym hefyd wedi parhau i gyhoeddi uchafbwyntiau wythnosol CHTh ar gyfer cyfryngau cymdeithasol ar draws pob platfform.

**Ymgyrchoedd a gefnogir**

Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb

Dyddiad: 12 i 19 Hydref 2024

Crynodeb: Cefnogodd CHTh yr ymgyrch hon gydag ymgyrch cyfryngau cymdeithasol a rannodd ddeunyddiau Cymorth i Ddioddefwyr ac a gyfeiriodd at wasanaethau a gomisiynwyd ar gyfer y rhai yr effeithiwyd arnynt gan droseddau casineb.

| | | |
|---|---|---|
| | | Wythnos Heneiddio'n Ddiogelach<br><br>Dyddiad: 11 i 17 Tachwedd 2024<br><br>Crynodeb: Yn ystod yr wythnos hon, ymunodd CHTh ag Hourglass i alw am gamau gweithredu i amddiffyn pobl hŷn rhag camfanteisio. Tynnodd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol bwrpasol sylw at adnoddau, awgrymiadau diogelwch, a phwysigrwydd cefnogi oedolion hŷn yn y gymuned.<br><br>Wythnos Diogelwch ar y Ffyrdd<br><br>Dyddiad: 17 i 23 Tachwedd 2024<br><br>Crynodeb: Cefnogodd CHTh Wythnos Diogelwch ar y Ffyrdd trwy gynnal ymgyrch cyfryngau cymdeithasol drwy gydol yr wythnos. Roedd postiadau'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o faterion diogelwch ffyrdd a hyrwyddo gwasanaethau BRAKE, elusen sy'n cefnogi dioddefwyr damweiniau ffyrdd.<br><br>Wythnos Ymwybyddiaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol<br><br>Dyddiad: 18 i 25 Tachwedd 2024<br><br>Crynodeb: Canolbwyntiodd postiadau cyfryngau cymdeithasol drwy gydol yr wythnos ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gyfeirio unigolion at wasanaethau cymorth a gomisiynwyd a gwasanaeth adolygu achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol yr heddlu. Roedd yr ymgyrch yn pwysleisio diogelwch cymunedol.<br><br>https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/newyddion/cefnogi-wythnos-ymwybyddiaeth-ymddygiad-gwrthgymdeithasol-2024-gwneud-cymunedaun-fwy-diogel-gydan-gilydd/<br><br>**Diwrnod Rhuban Gwyn**<br><br>Dyddiad: 25 Tachwedd 2024<br><br>Crynodeb: Ar Ddiwrnod Rhuban Gwyn, mynychodd y CHTh ddigwyddiadau a rhannodd |

| | | |
|---|---|---|
| | | ymgyrch cyfryngau cymdeithasol yn cefnogi'r fenter. Roedd y postiadau'n annog cymunedau, sefydliadau ac ysgolion i ymuno â'r ymgyrch i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched.<br><br>https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/newyddion/chth-yn-annog-sefydliadau-ysgolion-a-chymunedau-i-ymuno-a-r-ymgyrch-i-ddod-a-thrais-yn-erbyn-menywod-a-merched-i-ben/ |
| Ymateb i bryderon cymunedol mewn modd amserol | | Yn ystod y cyfnod hwn cofnodwyd 82 o bryderon, 55 o dan y categori "pryderon cymunedol" a 27 o dan y categori cwynion Adran Safonau Proffesiynol.<br><br>Cydnabyddir gohebiaeth o dan y categori "cwynion Adran Safonau Proffesiynol" a darperir manylion am y gŵyn a'r broses adolygu cwynion.<br><br>Lle cofnodir gohebiaeth o dan "bryder cymunedol" gwneir ymholiadau i'r heddlu ar ran y cyhoedd er mwyn darparu ymateb gweithredol.<br><br>Mae dau gofnod ar agor oherwydd ymholiadau parhaus yr heddlu.<br><br>Mae dau achos camymddygiad yn parhau ar agor, un yn aros i adroddiad canlyniad gael ei ddarparu gan y cadeirydd â chymwysterau cyfreithiol ac mae'r ail yn aros i'r gwrandawiad gael ei gynnal.<br><br>Nid oes unrhyw bryderon pellach ynglŷn â'r gohebiaeth. |
| Annog preswylwyr i gyfrannu at weithgarwch sicrwydd a chraffu | | Yn ystod y chwarter hwn roedd un Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa yn aros am ei wiriad. Ar gyfer y Cynllun Lles Anifeiliaid roedd pump gwirfoddolwr newydd yn destun gwiriad ar hyn o bryd ac roedd un aelod newydd o'r Panel Sicrhau Ansawdd hefyd yn aros am ei wiriad.<br><br>Mae'r SCHTh yn parhau â'r ymgyrch recriwtio ar gyfer pob cynllun gwirfoddol. Mae rheolwyr cynlluniau'n gweithio ochr yn ochr â thîm ymgysylltu SCHTh i gynhyrchu deunydd cyfryngau |

| | | |
|---|---|---|
| | | cymdeithasol ac ymgysylltu â'r cymunedau i addysgu a hyrwyddo'r cynlluniau.<br><br>Cynhaliwyd cyfanswm o 32 o ymweliadau Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa yn ystod y chwarter hwn. Ymhlith y pryderon mwyaf cyffredin a godwyd gan yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa roedd darpariaethau gofal iechyd, mynediad i bobl anabl, atgyweiriadau, problemau staffio a chyflenwi stociau bwyd. |
| Darparu gwasanaethau effeithiol a hygyrch i ddioddefwyr a phobl fregus | | Cyflwynwyd adroddiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder ddiwedd mis Hydref. Cyflwynodd pob darparwr gwasanaeth ddata gofynnol yn dangos canlyniadau cadarnhaol. Darparwyd y cyflwyniad terfynol gan Goleudy, ac mae bellach wedi'i dynnu o'r gofrestr risg gan fod y gwasanaeth wedi dod i ben ym mis Hydref 2024 a gwasanaeth newydd wedi'i ddarparu gan Gymorth i Ddioddefwyr o fis Tachwedd 2024 ymlaen. Hyderus y bydd data Cymorth i Ddioddefwyr yn gynhwysfawr.<br><br>Ni dderbyniwyd cwynion gan y CHTh ynghylch darparwyr gwasanaeth. Mae'r broses gwyno yn rhan o'r cylch archwilio blynyddol ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir.<br><br>Mae cwestiynau craidd yn y templed caffael ynghylch sut y bydd gwasanaethau'n cael eu gwneud yn hygyrch o nifer o safbwyntiau gan gynnwys elfennau daearyddol, ffisegol, iaith, amrywiaeth, cydraddoldeb a gallu a rhoddir sgôr iddynt fel rhan o'r broses gaffael. Rydym hefyd yn sicrhau bod y cwestiynau hyn yn cael eu hymgorffori mewn prosesau tendro a gynhelir gan bartneriaid lle rydym yn fuddsoddwr ar y cyd. Bellach mae'n ofynnol i ddarparwyr gynnal asesiadau monitro cydraddoldeb blynyddol ochr yn ochr ag adroddiadau naratif; bydd hyn yn ychwanegol at y data sydd ei angen ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder.<br><br>Mae fframwaith meintiol y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau. Mae strwythur llywodraethu Cymru gyfan yn ei le ac yn arwain ar drafodaethau gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae arweinydd polisi ar gyfer dioddefwyr wedi'i ymgorffori mewn cyfarfodydd ac yn arwain trafodaethau gyda'r heddlu ynghylch casglu data. |

**17j) Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am arfer swyddogaethau swydd y Prif Gwnstabl a'r rhai sydd o dan ei gyfarwyddyd a'i reolaeth**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 3 |
|---|---|---|
| Fel y manylir yn 17c | Amherthnasol | Amherthnasol |

**17k) Cyhoeddi gwybodaeth a nodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a gwybodaeth y mae'r CHTh yn ei hystyried yn angenrheidiol i alluogi'r bobl sy'n byw yn ardal yr heddlu i asesu perfformiad y CHTh a'r Prif Gwnstabl**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 3 |
|---|---|---|
| Cyhoeddi gwybodaeth yn unol â'r Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig | | Mae'r wefan newydd wedi'i lansio. Drwy lanlwytho'r wybodaeth berthnasol yn rheolaidd, caiff unrhyw anghysondebau a nodwyd eu cywiro. Mae darn o waith penodol yn cael ei wneud i ddiwygio rhannau o'r wefan i ganiatáu mwy o hygyrchedd a sicrhau ei bod yn gweithio'n well. |
| Cyhoeddi gwybodaeth mewn fformat hygyrch a hawdd ei gael | | Mae'r Nod Ansawdd Tryloywder a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol yn dangos ansawdd yr wybodaeth sydd ar gael ar y wefan a pha mor hawdd yw hi i bawb gael gafael arni.<br><br>Mae monitro rheolaidd y wefan yn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn hygyrch i bawb. Bydd hyn yn parhau yn y dyfodol gan y disgwylir, gyda newid llywodraeth, y bydd cydymffurfiaeth gwefannau pob Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cael eu monitro. |
| Cyhoeddi gwybodaeth yn unol â Safonau'r Gymraeg | | Mae'r holl wybodaeth a gyhoeddir yn cael ei chyfieithu fel mater o drefn fel arfer cyn cyhoeddi unrhyw beth, gan sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yr un fath bob amser. Yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | dilyn cyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth nid oes gofyniad bellach i gyfieithu ceisiadau rhyddid gwybodaeth. |
| Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau a gomisiynir yn rhagweithiol | | Adolygwyd a diweddarwyd cynnwys newydd gwefan SCHTh lle bo'n briodol. Mae dolen i'r wefan wedi'i chynnwys yn y pecynnau gwybodaeth i ddioddefwyr. Mae dogfennau perfformiad a throsolwg gwasanaeth unigol ar gyfer canlyniadau 2023/24 yn barod i'w lanlwytho i'r wefan. Gweithio gyda'r tîm Ymgysylltu i gynhyrchu clip ffilm wedi'i animeiddio i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau a gomisiynir ymhlith y cyhoedd ac yn fewnol gyda'r heddlu.<br><br>Mae tîm Ymgysylltu CHTh wedi'i gysylltu â thimau'r wasg o fewn yr holl wasanaethau a gomisiynir ac wedi sefydlu gweithgor i rannu erthyglau cyfryngau cymdeithasol a'r wasg ar y cyd. Erthyglau cyfryngau cymdeithasol rheolaidd yn cael eu rhannu ynglŷn â gweithgareddau gwasanaethau a gomisiynir ac yn cael eu cynnwys mewn cylchlythyrau.<br><br>Mae timau Comisiynu ac Ymgysylltu yn parhau i ddarparu tystiolaeth ac enghreifftiau o arferion gorau o waith o fewn Dyfed-Powys i alwadau cenedlaethol am dystiolaeth gan Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a chyrff cenedlaethol. Gweithio gyda'r tîm ymgysylltu i gynhyrchu clip wedi'i animeiddio i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau a gomisiynir.<br><br>Mae pob contract yn cynnwys gofyniad safonol ar gyfer hyrwyddo gwasanaethau. Mae cyfarfodydd gweithredu gwasanaethau yn cynnwys canolbwyntio ar gynlluniau cyfathrebu yn ystod camau gweithredu ac ar ddechrau darparu gwasanaeth mewn cysylltiad â SCHTh a chyfathrebu'r heddlu lle bo'n briodol. Mae'n ofynnol i wasanaethau a gomisiynir gydnabod ffynhonnell ariannu CHTh/y Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mhob cyhoeddusrwydd a deunydd. Mae'n ofynnol i ddarparwyr gynnal asesiadau cydraddoldeb a darparu tystiolaeth o |

| | | |
|---|---|---|
| | | weithgarwch codi ymwybyddiaeth ym mhob cymuned. Bydd hyn yn ein helpu i lywio unrhyw feysydd ffocws penodol sydd eu hangen ar gyfer cynlluniau gwasanaeth yn y dyfodol. |

**17l) Cydymffurfio â phob cais ffurfiol rhesymol gan y panel i fynychu eu cyfarfodydd**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 3 |
|---|---|---|
| Presenoldeb chwarterol yng nghyfarfodydd y Panel Heddlu a Throseddu | | Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a swyddogion perthnasol yn mynychu holl gyfarfodydd y Panel Heddlu a Throseddu yn ôl yr angen. Cynhelir trafodaethau rheolaidd rhwng y Prif Weithredwr a swyddog allweddol y panel i sicrhau bod aelodau'n derbyn gwybodaeth berthnasol ac amserol. |
| Darparu dogfennaeth i'r Panel Heddlu a Throseddu yn unol â'u ceisiadau | | Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a swyddogion perthnasol yn mynychu holl gyfarfodydd y Panel Heddlu a Throseddu yn ôl yr angen. Cynhelir trafodaethau rheolaidd rhwng y Prif Weithredwr a swyddog allweddol y panel i sicrhau bod aelodau'n derbyn gwybodaeth berthnasol ac amserol. |
| Cyswllt rheolaidd rhwng SCHTh a'r Panel Heddlu a Throseddu i gefnogi cyflawni dyletswyddau statudol | | Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a swyddogion perthnasol yn mynychu holl gyfarfodydd y Panel Heddlu a Throseddu yn ôl yr angen. Cynhelir trafodaethau rheolaidd rhwng y Prif Weithredwr a phrif swyddog y panel i sicrhau bod aelodau'n derbyn gwybodaeth berthnasol ac amserol. |

**17m) Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 3 |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol i'r panel ar gyflawniad y CHTh yn erbyn yr amcanion a osodwyd yn y cynllun | | Mae adroddiad blynyddol wedi'i ddatblygu a darparwyd fersiwn derfynol i'r panel yng nghyfarfod mis Hydref. |

**17n) Monitro pob cwyn a wneir yn erbyn swyddogion a staff, ac yn gyfrifol am gwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Ymdrin â chwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl | | Yn ystod y cyfnod hwn, derbyniwyd dau gŵyn am y Prif Gwnstabl. Un oedd cwyn ynghylch defnyddio arfbais yr heddlu, sef cwyn a anfonwyd at bob heddlu yng Nghymru a Lloegr. Roedd y ddwy gŵyn arall yn ymwneud ag awdurdod dirprwyedig ac nid oeddent yn bodloni'r meini prawf i gael eu cofnodi. |
| Sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith yn barod ar gyfer rolau cynyddol y CHTh mewn cwynion fel yr amlinellir yn Neddf yr Heddlu a Throseddu 2017 | | Cwblhawyd 14 o adolygiadau yn ystod y cyfnod hwn (un wedi'i gario drosodd o'r cyfnod diwethaf). Ni chadarnhawyd tri adolygiad, a derbyniwyd yr argymhellion gan y Adran Safonau Proffesiynol<br><br>Mae'r SCHTh hefyd yn cofnodi materion goruchwylio lle gellid gwella'r gwasanaeth. Mae'r themâu a nodwyd fel esgeulustod yn ymwneud ag amserlenni trin y gŵyn a pheidio â derbyn diweddariad ystyrlon o fewn 28 diwrnod. Codwyd hyn gyda'r Adran Safonau Proffesiynol yn y Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol diweddar. |

**18) Rhaid i CHTh beidio â llyffetheirio annibyniaeth weithredol yr heddlu**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu ac adolygiad blynyddol y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol | | Mae Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig wedi'i ddatblygu a'i gytuno. Mae wedi'i gyhoeddi'n fewnol ac mae i'w gyhoeddi ar wefan allanol SCHTh yn fuan (yn aros am gyfieithiad ar hyn o bryd). |

**19) Mynediad at wybodaeth, swyddogion a staff**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 4 |
|---|---|---|
| Trin gwybodaeth yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data | | Fel corfforaeth undyn, mae'r SCHTh yn destun ceisiadau rhyddid gwybodaeth ac yn gyfrifol amdanynt. Daeth deg cais rhyddid gwybodaeth i law yn ystod y cyfnod ac roedd gan SCHTh yr wybodaeth ar gyfer pedwar ohonynt. Atebwyd pob cais mewn pryd. Themâu'r ceisiadau oedd cyllid ar gyfer dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol nad yw'n droseddol, cytundebau setliad staff, praesept yr heddlu a chyllid allanol a dderbyniwyd ac a ddyrannwyd. Roedd y ceisiadau nad oedd gan yr SCHTh yr wybodaeth ar eu cyfer yn ymwneud â digwyddiadau casineb nad ydynt yn droseddau, contractau canolfannau cyswllt, chwiliadau personol, meddalwedd TGCh a gwybodaeth bersonol. |

**20a) Darparu diogelwch cymunedol a lleihau trosedd**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 3 |
|---|---|---|
| Datblygu a gweithredu fframwaith llywodraethu ar gyfer comisiynu a phartneriaethau | | Strategaeth gomisiynu yn ei lle sy'n disodli dogfennau blaenorol. Ar gael ar wefan newydd CHTh. Strategaeth yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd ar gyfer cyfnod 4.<br><br>Mae craffu ar wasanaethau a gomisiynir a'r sefydliadau sy'n derbyn cyllid y comisiynydd wedi'i ymgorffori yn strwythur llywodraethu cyffredinol SCHTh. Mae'r dull pwyllgor dethol |

| | | |
|---|---|---|
| | | arfaethedig yn rhoi cyfle i ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynir i gyfrannu. Gall hyn fod yn ddeublyg o ran cyfrannu tystiolaeth a her fel y bo'n briodol ond hefyd i gyflwyno cyd-destun a pherfformiad eu darpariaeth gwasanaeth gan sicrhau bod hyn yn cael ei blethu i ffrydiau gwaith yr heddlu a phartneriaid.<br><br>Disgwylir y pwyllgor dethol cyntaf.<br><br>Cofrestr contractau yn ei lle ac wedi'i hadolygu ar gyfer cyfnod 4, ochr yn ochr â gwerthuso a chynllun archwilio ar gyfer dyfodol yr holl wasanaethau a gomisiynir. Cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau a'r Pennaeth Caffael. Daeth tri ymarfer caffael i ben ac mae un heb ei gynnal eto ar gyfer 2024/25.<br><br>Mae adroddiad ar berfformiad ac adroddiad ar y prif bwyntiau ar gyfer gwasanaethau a gomisiynwyd bellach wedi'i ymgorffori fel eitem ar yr agenda yn y Bwrdd Perfformiad Strategol newydd.<br><br>Mae'r tîm sicrwydd yn gweithio gyda'r swyddog Cymorth Comisiynu a Phartneriaethau i adolygu gwasanaethau trais rhywiol. Mae hyn yn cynnwys samplu ar hap gan y Panel Sicrhau Ansawdd ac adolygiad o effaith ar y gwasanaeth gan ddefnyddio cymhariaeth cost troseddu. Cyflwynir adroddiad ar hyn ym mis Ionawr 2025 a bydd yn darparu fframwaith ar gyfer mesur gwasanaethau eraill.<br><br>Cyflwynwyd tystiolaeth gwerth am arian drwy Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar gyfer rownd dau o'r adolygiad gwariant. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar bobl ifanc coll a gwasanaethau trais rhywiol, yn ogystal â ffeithluniau sy'n dangos canlyniadau a gyflawnir gan wasanaethau.<br><br>Mae blaenoriaethau a chynllun cyflawni'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol wedi'u halinio â blaenoriaethau Cyfiawnder Troseddol yng |

| | | |
|---|---|---|
| | | Nghymru. Cymeradwywyd cynllun cyflawni 2024/25, gan adlewyrchu blaenoriaethau lleol megis cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned ochr yn ochr â gwaith cenedlaethol ar y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr, rhoi'r gorau i achosion cam-drin domestig ac ati. Gwahoddiad i aelodau'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol i ddigwyddiad lansio ar 13 Chwefror gyda gweithdy penodol yn canolbwyntio ar y cynllun cyflawni ar gyfer y dyfodol. |
| Comisiynu gwasanaethau i gefnogi diogelwch cymunedol a lleihau trosedd | | Mae grant dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael ei ariannu'n gyfatebol gan gyllid craidd y CHTh. Cyfanswm y grant ar gyfer 2024/25 yw £1,411,634 o gyfanswm cyllideb gomisiynu o £2.74 miliwn. Felly, mae'r CHTh yn darparu tua 49% o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau. Nodir hyn yn natganiadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder lle caiff arian cyfatebol ei adrodd i weinidogion. Cafwyd cadarnhad ym mis Rhagfyr 2024 y bydd y grantiau i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sydd wedi'u glustnodi yn parhau ar y lefel bresennol ar gyfer 2025/26. Cafwyd gostyngiad o 4.2% yn y grant craidd i ddioddefwyr, gan arwain at ostyngiad real o £25,422. Bydd y CHTh yn gweithio i sicrhau nad yw hyn yn effeithio ar wasanaethau rheng flaen.<br><br>Mae cyfarfodydd chwarterol yn cael eu trefnu rhwng rheolwyr gwasanaethau troseddau ieuenctid ac atal troseddu ymhlith ieuenctid, rheolwyr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a chynrychiolwyr SCHTh. Mae swyddogion polisi yn cynrychioli SCHTh ar yr holl Fyrddau Rheoli Troseddau Ieuenctid a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol ar draws ardal yr heddlu. Cyfiawnder ieuenctid yw prif ffocws Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ar hyn o bryd. Mae cynrychiolydd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a chynrychiolydd y Bwrdd Cynllunio Ardal yn aelodau o'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol sy'n arwain ar waith atal. Mae gwaith yn parhau gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a phartneriaethau |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwasanaethau troseddau ieuenctid i gyflawni'r Ddyletswydd Trais Difrifol, yn enwedig datblygu ymyriadau o dan y cynllun cyflawni.<br><br>Cododd y CHTh bryderon a ddaeth i law gan reolwyr partneriaethau gwasanaethau troseddau ieuenctid yn y Bwrdd Perfformiad Strategol diweddaraf gyda'r Prif Gwnstabl.<br><br>Mae telerau ac amodau grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael eu bodloni, a chydymffurfiaeth yn cael ei chofnodi a'i chymeradwyo gan y Prif Swyddog Cyllid ar gyfer ffurflenni grant. Mae cytundebau grant a chontractau gyda darparwyr yn sicrhau bod y telerau ac amodau priodol yn cael eu bodloni. Mae'r amserlen archwilio yn cynnwys gwiriadau ar gydymffurfiaeth.<br><br>Mae darparu cyfiawnder adferol yn swyddogaeth statudol i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, sy'n gweithio gyda gwasanaethau dioddefwyr i nodi dioddefwyr a chysylltu â nhw yn ôl yr angen. Mae arweinydd yr heddlu wedi'i nodi ac ar hyn o bryd mae'n adolygu polisi a gweithrediad o fewn Heddlu Dyfed-Powys. Disgwylir argymhellion. Mae monitro contractau Cymorth i Ddioddefwyr yn dechrau ym mis Ionawr 2025 gyda ffocws ar gyfiawnder adferol o fewn adroddiadau.<br><br>Gwahoddwyd pob cyswllt partneriaeth, gan gynnwys rheolwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, i ddigwyddiadau ymgynghori ym mis Medi 2024. Gwahoddir partneriaid i lansio digwyddiad ar 13 Chwefror gyda gweithdai i gytuno ar brosiectau amlasiantaeth sy'n cyfrannu at bob strategaeth. |

**20b) Partneriaethau Diogelwch Cymunedol**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 3 |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Amherthnasol yng Nghymru | Amherthnasol | Amherthnasol |

**20c) Grantiau lleihau trosedd ac anhrefn**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 3 |
|---|---|---|
| Datblygu a gweithredu fframwaith ar gyfer darparu grantiau trosedd ac anhrefn | | Mae gwaith wedi'i gwblhau i ddiweddaru'r ffurflen gais am gyllid yn unol â'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd. Bydd hyn yn cael ei asesu ddechrau chwarter 4 gan uwch arweinwyr – yn aros am gymeradwyaeth. Yn dilyn ymgynghori â phartneriaid allweddol yn ystod chwarter 3, bydd y broses sgorio hefyd yn cael ei hadnewyddu yn chwarter 4. |
| Darparu grantiau lleihau trosedd ac anhrefn o fewn 2024/2025 | | Yn ystod chwarter 3, mae tri chais newydd am gyllid a/neu roddion wedi cael eu cymeradwyo gyda gwerth y gofynnwyd amdano o £7,660.00.<br><br>Cafwyd 13 o ymholiadau am gyllid yn ystod chwarter 3, mae rhai yn cael eu datblygu ac rydym yn aros am geisiadau am gyllid. Mae'r rhi nad ydynt yn gymwys i gael grant CHTh wedi cael gwybod a chyngor wedi'i ddarparu ar ffynonellau cyllid grant eraill i gefnogi eu gweithgareddau. |
| Gwerthusiad o grantiau lleihau trosedd ac anhrefn i bennu enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad | | Fel rhan o'r adolygiad o'r cais am gyllid i gyd-fynd â'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd, ceisiwyd cyngor gan arweinwyr Caffael a Chynaliadwyedd i adolygu ac adnewyddu cynnwys.<br><br>Gwnaed un newid bach i sicrhau bod ymgeiswyr yn deall y cwestiynau am werth cymdeithasol a chynaliadwyedd a chaniatáu iddynt ddarparu ymatebion cadarn y gellir eu hasesu'n llawn yn erbyn y broses sgorio.<br><br>Os dyfernir cyllid, mae'r wybodaeth am werth cymdeithasol a chynaliadwyedd sydd wedi'i chynnwys yn eu ffurflen gais yn elfen annatod o |

| | | |
|---|---|---|
| | | amserlenni gwerthuso a monitro'r contract grant. Caiff hyn ei asesu yn unol ag amserlenni'r grant ac yn benodol i'r trefniant gyda'r ymgeisydd. |

**20d) Cytundebau cydweithio**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 3 |
|---|---|---|
| Fel y manylir yn 17h | Amherthnasol | Amherthnasol |

**20e) Cyfrifoldeb ehangach am wella darpariaeth cyfiawnder troseddol yn eu hardal**

| Camau i'w cymryd | COCH MELYN GWYRDD | Diweddariad cynnydd chwarter 3 |
|---|---|---|
| Monitro perfformiad yr holl wasanaethau a gomisiynir, gan sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn rhoi gwerth am arian | | Cyfarfodydd adolygu chwarter 2 i gyd wedi'u cynnal. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau'n adrodd am heriau oherwydd cynnydd mewn costau byw wedi'i gydbwyso yn erbyn diffyg chwyddiant sy'n berthnasol i gontractau CHTh. Mae hyn wedi'i uwchgyfeirio i'r Prif Swyddog Cyllid ac mae'n cael sylw drwy ganiatáu twf blynyddol o fewn cyllidebau ar gyfer contractau a ailgomisiynir a thrwy gyfraniadau untro ar sail tystiolaeth i'r darparwyr hynny yng nghanol cyfnod y contract.<br><br>Mae archwiliad blynyddol yn cynnwys adolygiad o amseroldeb a chynnydd cadarnhaol yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol. Nid oedd data perfformiad Goleudy ar gael ar ôl i'r gwasanaeth ddod i ben. Dechreuodd y gwasanaeth newydd ym mis Tachwedd 2024 a |

| | | |
|---|---|---|
| | | throsglwyddwyd yr holl gleientiaid agored yn llwyddiannus.<br><br>Mae CHTh yn parhau i ymweld â gwasanaethau priodol fel rhan o ddiwrnodau ymgysylltu cymunedol. Fe fydd tîm comisiynu yn bwydo i'r amserlen ar gyfer ymweliadau CHTh â gwasanaethau a'r rhai sy'n derbyn cyllid yn unol â gweithgarwch ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>Mae craffu ar wasanaethau a gomisiynir a'r sefydliadau sy'n derbyn cyllid y comisiynydd wedi'i ymgorffori yn strwythur llywodraethu cyffredinol SCHTh. Mae'r dull pwyllgor dethol arfaethedig yn rhoi cyfle i ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynir i gyfrannu. Gall hyn fod yn ddeublyg o ran cyfrannu tystiolaeth a her fel y bo'n briodol ond hefyd i gyflwyno cyd-destun a pherfformiad eu darpariaeth gwasanaeth gan sicrhau bod hyn yn cael ei blethu i ffrydiau gwaith yr heddlu a phartneriaid. Disgwylir y pwyllgor dethol cyntaf.<br><br>Mae adrodd ar berfformiad a phrif bwyntiau gwasanaethau a gomisiynwyd bellach wedi'i ymgorffori fel eitem ar yr agenda yn y Bwrdd Perfformiad Strategol newydd. |
| Cyfraniad CHTh i agenda Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan | | Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol unigolion a gedwir yn y ddalfa yn gweithio'n agos gyda chydlynydd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru i sicrhau bod blaenoriaethau ac adrodd yn cyd-fynd â threfniadau Cymru Gyfan. Mae prif uchafbwyntiau yn yr adroddiad diweddar yn cynnwys gweithredu Pathfinder mewn llysoedd teulu yn Nyfed Powys, nifer yr achosion o dreisio a throseddau rhywiol difrifol sy'n cael eu dwyn gerbron llys a gwella amseroldeb, cynllun i adolygu ymgorffori agenda gwrth-hiliaeth y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ac argymell camau gweithredu yn y dyfodol.<br><br>Roedd cyfarfod y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2024, yn canolbwyntio ar flaenoriaethau dioddefwyr gan gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth newydd sy'n cael ei weithredu gan |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gymorth i Ddioddefwyr, cynllun gweithredu partneriaeth ar gyfer mynd i'r afael â rhoi'r gorau i achosion cam-drin domestig a mewnbwn gan ddefnyddiwr gwasanaeth ynghylch achosion llys teulu ar gyfer cam-drin domestig. Bydd trefniadau llywodraethu newydd yr SCHTh yn ymgorffori craffu ar gydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr ar gyfer pob asiantaeth cyfiawnder troseddol. |
| Cyfrifoldebau portffolio cenedlaethol CHTh | | Mae'r portffolios cenedlaethol wedi cael eu hadolygu ac mae'r comisiynydd yn eistedd ar y byrddau canlynol:<br>• Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan<br>• Plismona yng Nghymru (Cadeirydd)<br>• Bwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu<br>• Bwrdd Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel<br>• Bwrdd Diogelu Unedig Sengl gyda Llywodraeth Cymru<br>• Rhwydwaith Troseddau Gwledig Cenedlaethol<br>• Cadeirydd Grŵp Llywio Cyflog Byw Canolbarth a Gorllewin Cymru<br><br>Mae meysydd arweiniol penodol wedi'u cytuno rhwng y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu yng Nghymru. Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Llywelyn yn arwain ar y portffolios canlynol:<br>• Perfformiad, data ac ymchwil academaidd<br>• Plant a phobl ifanc (gan gynnwys cyfiawnder ieuenctid)<br>• Cymunedau a phartneriaethau (gan gynnwys plismona bro a swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu)<br>• Materion gweithlu a safonau moesegol<br>• Goruchwyliaeth weithredol (Bwrdd Cydweithio, Plismona'r Ffyrdd, Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu a Bwrdd Platinwm y Cyd-uned Arfau Tanio)<br>• Cyllid, cyllidebau a chaffael |